| **GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG** | |
|---|---|
| **162 - Rheoliad (UE) Rhif 2018/1724 Rheoliadau Rheoliad y Porth Digidol Unigol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 1 Gorffennaf 2020* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 14 Gorffennaf 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 20 Gorffennaf 2020 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 21 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae’r offeryn hwn yn cael ei wneud er mwyn mynd i’r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu’n effeithiol, a diffygion eraill sy’n deillio o ymadawiad y DU â’r UE.

Mae Rheoliad (UE) 2018/1724 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar 2 Hydref 2018 yn sefydlu un porth digidol i ddarparu mynediad at wybodaeth, gweithdrefnau, ac at wasanaethau cymorth a datrys problemau, a diwygio Rheoliad (UE) 1024/2012 (“Rheoliad y Porth Digidol Unigol”), yn Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n uniongyrchol berthnasol. Bydd rhai o ddarpariaethau Rheoliad y Porth Digidol Unigol yn gyfystyr â chyfraith yr

UE a ddargedwir yn unol ag adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae Rheoliad y Porth Digidol Unigol yn darparu mynediad ar-lein at y wybodaeth, y gweithdrefnau gweinyddol a'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen ar ddinasyddion a busnesau i fyw mewn gwlad arall yn yr UE neu i gynnal busnes mewn gwlad arall yn yr UE. Mae'n darparu ar gyfer creu un pwynt mynediad at y we i'r UE, sef "y Porth", a fydd yn cysylltu gwefannau a phyrth yr UE a rhai cenedlaethol, ac yn darparu gwybodaeth i unigolion a busnesau sy'n ymwneud â hawliau a rheolau'r Farchnad Sengl.

Mae Rheoliad y Porth Digidol Unigol yn gymwys yn gyfan gwbl o fewn Marchnad Sengl yr UE ac felly mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU ar gyfer y Rheoliadau hyn yn nodi (ym mharagraff 7.1) na fyddai er budd y DU i gael ei rhwymo gan Reoliad y Porth Digidol Unigol unwaith y bydd y Cyfnod Trosglwyddo wedi dod i ben, pan fydd y DU yn peidio â bod yn rhan o'r Farchnad Sengl. Diben yr offeryn hwn, felly, yw dirymu'r darpariaethau hynny yn Rheoliad y Porth Digidol Unigol a fydd yn gyfystyr â chyfraith yr UE a ddargedwir ar 31 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny, fel nad yw'r Deyrnas Unedig bellach wedi'i rhwymo'n gyfreithiol gan Reoliad y Porth Digidol Unigol unwaith y bydd y Cyfnod Trosglwyddo yn dod i ben.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliad (EU) 1024/2012 ar gydweithrediad gweinyddol drwy System Wybodaeth y Farchnad Fewnol ac yn diddymu Penderfyniad y Comisiwn 2008/49/EC ('Rheoliad System Wybodaeth y Farchnad Fewnol'), i hepgor paragraff 12 o'r Atodiad, sy'n cyfeirio at Reoliad UE 2018/1724.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 3 Gorffennaf 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn, gan gynnwys casgliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.